# SUT Y GALLWN NI DDELIO AG YMLEDIADAU YN LLŶN?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio'r term 'ymlediad' cyn dod i wybod am rywogaethau ymledol yn y DU. Maent yn ymchwilio i un o'r rhywogaethau a roddwyd ac yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth. Bydd y dysgwyr yn edrych ar ffyrdd y mae rhywogaethau anfrodorol yn goresgyn a rhai ffyrdd o ddelio â goresgyniadau. Maent yn astudio llyffantod cansen, megis rheolaeth fiolegol, cyn defnyddio AI i ysgrifennu cerdd am y creaduriaid hyn. Mae dysgwyr yn edrych ar sut mae organebau'n dod yn rywogaethau ymledol ac yn ystyried rhywogaethau ymledol anfrodorol yng Nghymru. Maen nhw'n dod i wybod am Jac y Neidiwr, gan ystyried a oes croeso iddo yn Llŷn.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o gofnodi tystiolaeth o Jac y Neidiwr, e.e. ffonau clyfar, tabledi, camerâu, mapiau, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW YMLEDIAD?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall rhywogaethau ymledol, anfrodorol.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir diffiniadau gwahanol o'r term 'ymlediad'. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y diffiniadau er mwyn penderfynu gyda phwy maen nhw'n cytuno/anghytuno a pham.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod a rhoi eu diffiniad eu hunain o 'ymlediad' a'i deipio yn y blwch.

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y diffiniadau o'r gair Saesneg 'invasion' sydd yng Ngeiriadur Caergrawnt (wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg). Yna, gallant drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor debyg yw eich diffiniad chi i'r rhai hyn?
- Sut mae'r diffiniadau hyn yn wahanol i'ch diffiniad chi?
- Sut allech chi newid eich diffiniad er mwyn ei wella?

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr y gwelir 'ymlediadau' gan rywogaethau nad ydyn nhw'n naturiol yn eu hamgylchedd eu hunain. Rydym yn galw'r rhywogaethau hyn yn 'anfrodorol'.

Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau anfrodorol yn ddiniwed, ond mae tua 10-15% yn rai ymledol ac yn achosi problemau i rywogaethau brodorol. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn ffocws**

- Pa fathau o broblemau y gallai rhywogaethau anfrodorol eu hachosi i rywogaethau brodorol? Rhestrwch gymaint o syniadau ag y gallwch.

## Sgrîn 7

Ar y sgrîn hon, rhoddir rhestr o rywogaethau ymledol yn y DU. Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddarganfod mwy am un o'r rhywogaethau ymledol hyn a chyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad munud o hyd.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r grid CwAMFf i gynllunio a threfnu eu hymchwil.

## Sgrîn 9

Dyma rai cwestiynau i ddysgwyr eu trafod ynghylch trefnu eu cyflwyniad.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu? Pam?
- Sut allech chi ddefnyddio TGCh yn eich cyflwyniad? Pam ei ddefnyddio fel hyn?
- Ble byddwch chi'n chwilio am ddelweddau o ansawdd da i'w cynnwys yn eich cyflwyniad? Pam? A fyddai'r delweddau hyn yn rhad ac am ddim? Sut ydych chi'n gwybod? A fyddai hawlfraint arnynt? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- A ydych chi wedi casglu digon o wybodaeth i gyflwyno rhywfaint ohoni yn fathemategol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond munud o hyd yw eich cyflwyniad?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i gyflwyno eu canfyddiadau am rywogaeth ymledol anfrodorol.

## Sgrîn 11

Ar sgrîn olaf y dasg hon, rhoddir cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio un neu fwy o'r ymadroddion a ddarperir, ar ddechrau brawddegau pan yn myfyrio ar y dasg - Deallais y broblem yn well pan...; Un peth sydd angen ei newid yma yw...; Un o achosion allweddol y broblem yw...; Ffordd dda o ddarganfod mwy am hyn fyddai...; Mae ein hymchwil wedi gwneud i mi sylweddoli...; Ar ôl fy ymchwil ar-lein, rydw i nawr yn deall...; Rwyf wedi gweld rhywbeth fel hyn o'r blaen pan...; Un peth dwi'n dal ddim yn ei ddeall ydy...; Mae'r broblem yn ymwneud â....

TASG 2

# SUT MAE RHYWOGAETHAU ANFRODOROL YN YMLEDU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddant yn datblygu eu dealltwriaeth ynghylch sut mae rhywogaethau anfrodorol yn ymledu ac yn ystyried rhai ffyrdd o ddelio ag ymlediadau, yn y dasg hon.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr wrando ar y clip sain trwy glicio ar y botwm 'chwarae'. Yna, gallant drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei glywed?
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n gwneud y synau hyn? Pam?
- Ble efallai mae hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am lyffantod cansen (y synau ar y sgrîn flaenorol). Disgrifir sut y cawsant eu cyflwyno i Awstralia o Hawaii ym 1935. Ar y pryd, roedd chwilod cansen cefn llwyd yn dinistrio planhigfeydd cansen siwgr. Roedd pobl yn gobeithio y byddai'r llyffantod yn bwyta'r chwilod, gan greu rheolaeth fiolegol.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen y gerdd am lyffantod cansen, gan ofyn am eu meddyliau wedi iddynt ddarllen y gerdd.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwr i ddarllen y gerdd am lyffantod cansen eto, ac yna i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r gerdd yn gwneud i chi deimlo am lyffantod cansen? Sut mae'r gerdd yn llwyddo i wneud hyn?
- Beth yw nodweddion da y gerdd? Pam fod y rhain yn nodweddion da?
- A oes unrhyw beth yn y gerdd sydd ddim yn dda, yn eich barn chi? Beth ydyw? Pam?
- Beth allech chi ei newid yn y gerdd er mwyn ei gwella? Pam y byddai hynny'n ei gwella?

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ddefnyddio Chat GPT i'w helpu i ysgrifennu cerdd am lyffantod cansen. Cyn iddynt ddechrau, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r geiriau neu'r termau pwysicaf yr ydych am i'ch cerdd eu cynnwys? Pam?
- Sut ydych chi'n mynd i sicrhau fod Chat GPT yn defnyddio'r geiriau neu'r termau hyn?
- Pa nodweddion barddoniaeth fyddwch chi'n gofyn i Chat GPT eu defnyddio? Pam defnyddio rhain?
- Pa gyfarwyddiadau eraill fyddwch chi'n eu rhoi i Chat GPT? Pam?

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio Chat GPT i ysgrifennu eu cerdd. Yna, gallant adolygu'r gerdd orffenedig a cheisio ei darllen yn uchel. Gofynnwch iddyn nhw ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallwn ni wella'r gerdd? Pam y gallai hyn ei gwella?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ailddrafftio eu cerdd, er mwyn ei gwella.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llyffantod cansen wedi cael eu cyflwyno i Awstralia er mwyn cael rheolaeth fiolegol. Credwyd y byddent wedi cael effaith gadarnhaol drwy fwyta'r chwilod a oedd yn dinistrio cnydau cansen siwgr. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam mai camgymeriad oedd defnyddio llyffantod cansen ar gyfer rheolaeth fiolegol?
- Beth ddylai fod wedi'i wneud cyn cyflwyno'r llyffantod cansen? Rhestrwch gymaint o bethau ag y gallwch.
- Gan ddefnyddio'ch rhestr, sut y gallai gwneud pob un o'r pethau hyn arwain pobl i wneud penderfyniadau gwahanol?
- A fyddech chi wedi cynghori Awstralia i gyflwyno llyffantod cansen? Pam?

## Sgrîn 10

Dywedwch wrth y dysgwyr bod llawer o rywogaethau anfrodorol ymledol eraill sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer rheolaeth fiolegol.

Gofynnwch iddyn nhw ymchwilio ar y rhyngrwyd er mwyn darganfod dwy enghraifft arall o reolaeth fiolegol. Un oedd yn llwyddiannus ac un nad oedd yn llwyddiannus. Yna, ar gyfer pob enghraifft, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu paragraff byr i ddisgrifio:

- pam y defnyddiwyd rheolaeth fiolegol
- beth ddigwyddodd pan gyflwynwyd y rhywogaeth.

Yn olaf, gallant rannu canfyddiadau eu hymchwil gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr fod bodau dynol yn cyflwyno rhywogaethau ar gyfer rheolaeth fiolegol yn un ffordd o gyflwyno rhywogaethau ymledol i amgylchedd newydd. Gofynnwch iddynt roi cynnig ar y cwis, gan geisio paru pob rhywogaeth ymledol â'r ffordd y daeth i amgylchedd newydd yn y DU. Gallech atgoffa dysgwyr o'r cyflwyniadau am y rhywogaethau hyn yn Nhasg 1.

## Sgrîn 12

Dangoswch y fideo: Let's tackle invasive species in Wales!. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam fod rhywogaethau ymledol yn creu risg i fioamrywiaeth?
- Beth allech chi ei wneud er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yng Nghymru? Sut byddai hyn yn helpu?
- Beth arall hoffech chi ei ddarganfod am rywogaethau ymledol yng Nghymru? Sut allech chi wneud hyn?

## Sgrîn 13

Gofynnwch i'r dysgwyr gael mynediad at Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru – er mwyn gweld sut i adrodd am rywogaethau ymledol yng Nghymru. Yna, gallant drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallai'r gwasanaeth hwn fod yn ddefnyddiol wrth fonitro rhywogaethau ymledol?
- Pa rywogaethau ymledol a restrir yma nad ydych yn gwybod dim amdanynt? Sut allech chi ddarganfod mwy?
- Beth allech chi ei wneud er mwyn helpu i adrodd am rywogaethau ymledol yn Llŷn?

TASG 3

# RHYWOGAETHAU YMLEDOL YN LLŶN

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dod i wybod am Jac y Neidiwr, gan ystyried a oes croeso iddo yn Llŷn.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am Jac y Neidiwr - rhywogaeth ymledol yn Llŷn, yn ogystal â ledled Cymru.

## Sgrîn 4

Rhoddir rhagor o wybodaeth am Jac y Neidiwr yma.

**N.B.** *Mae uchder Jac y Neidiwr, ei allu i ymledu'n rhwydd ac i dyfu'n drwchus, ynghyd â'i allu i dyfu lle mae lefelau goleuni isel, yn golygu y gall fod yn gallu cystadlu'n effeithiol dros ben gyda phlanhigion brodorol. Mae llawer o'r planhigion brodorol hyn yn darparu buddion ecolegol pwysig i bryfaid penodol. Hefyd, oherwydd bod Jac y Neidiwr mor boblogaidd gan wenyn, credir y gallai planhigion eraill dderbyn llai o beillio, o ganlyniad i hyn. Mae Jac y Neidiwr wedi newid cydbwysedd ecolegol y dirwedd yn ei chyfanrwydd mewn llawer ardal, ac felly mae ecolegwyr yn ei ystyried yn broblem enfawr.*

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr fod pob grŵp yn mynd i gynhyrchu Sway er mwyn ceisio perswadio eraill, naill ai:

- i gael gwared â Jac y Neidiwr o'r ardal

neu

- i reoli Jac y Neidiwr fel y gellir ei ddefnyddio'n ddiogel mewn gerddi.

Yn gyntaf, byddant yn cynnal arolwg o'r ardal leol neu Dirwedd Cenedlaethol Llŷn i ddarganfod ble mae'n tyfu. Yna, byddant yn ymchwilio ar-lein i ddarganfod mwy am Jac y Neidiwr.

## Sgrîn 6

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i wneud arolwg er mwyn darganfod ble mae Jac y Neidiwr yn tyfu. Awgrymwch eu bod yn defnyddio map i ddangos i eraill ble mae'n tyfu a chymryd rhai ffotograffau ohono.

**N.B.** *Bioddiogelwch - mae'n bwysig nad yw hadau'n cael eu lledaenu. Felly, gwnewch arolwg pan mae'r planhigyn yn blodeuo, yn gynnar yn yr haf.*

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio ar-lein er mwyn archwilio i gylchred bywyd Jac y Neidiwr a pham mae'n cael ei ystyried yn rhywogaeth ymledol.

Atgoffwch nhw bod angen iddynt ystyried y canlynol wrth chwilio ar y rhyngrwyd:

*Cyn chwilio...*

- Sut byddwch chi'n cynnal yr ymchwil hwn? Pam?
- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o wefannau fydd orau i chi edrych arnynt, pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data...*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth/data yn ddibynadwy? Sut allech chi ddarganfod hyn?
- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd angen i bob grŵp ddod o hyd i'r wybodaeth ganlynol am Jac y Neidiwr:

- ei gylchred bywyd
- pam ei fod yn cael ei ystyried yn rhywogaeth ymledol
- sut mae'n effeithio ar rywogaethau eraill o blanhigion a thrychfilod
- sut mae niferoedd Jac y Neidiwr yn cael eu monitro a'u rheoli ar hyn o bryd.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy sy'n mynd i wneud beth yn eich grŵp? Pam?
- A ydych chi'n mynd i weithio mewn parau neu drioedd neu'n unigol? Pam?
- Sut ydych chi'n mynd i gofnodi'r hyn rydych chi'n ei ddarganfod? Pam ei gofnodi fel hyn?
- Sut ydych chi'n mynd i rannu eich canfyddiadau ag eraill? A ellid gwneud hyn yn ddigidol? Os yw hynny'n bosibl, sut?

Yna, gofynnwch iddyn nhw wneud eu hymchwil a chynhyrchu eu Sway.

## Sgrîn 9

Ar y sgrin hon, rhoddir cyfarwyddiadau ar gyfer gwneud Sway.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r triongl myfyrio i feddwl sut y gwnaethon nhw baratoi ar gyfer eu Sway a'i gynhyrchu.